# Shadrach, Meshach ac Abednego



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yr wythnos hon byddwn yn astudio stori Daniel, Shadrach, Meshach ac Abednego. Mae i'w gael yn Daniel Penodau 1-3. Rhai o'r prif bwyntiau byddwn yn astudio bydd—

- Dylwn sefyll dros Dduw
- Gwnaiff Duw ein helpu drwy sefyllfaoedd anodd
- Mae Duw gyda ni mewn sefyllfaoedd anodd

## Cynllun y wers

Siaradwch am fel oedd Daniel, Shadrach, Meshach ac Abednego yn ddynion ifanc pan gawson eu cymryd o'u cartrefi. Eglurwch eu bod wedi cael eu cymryd i wlad arall a'u gorfodi i weini ar y brenin yno. Siaradwch am fel nad oedd pobl y wlad dramor yma yn adnabod, caru neu yn ufuddhau i Dduw.

Eglurwch fod yna llawer o bobl sydd ddim yn adnabod neu yn ufuddhau i Dduw. Mae rhai yn byw mewn gwledydd tramor ac eraill yn byw yn ein gwledydd cartref ni. Atgoffwch y plentyn mai lle bynnag y byddwn, dylwn sefyll dros Dduw. Gallwch ddewis rhywun rydych yn adnabod neu wedi clywed amdano sy'n sefyll dros Dduw a helpwch eich plentyn weddïo drosto. Gall y person fod yn rhywun o genhadwr i weinidog i berthynas neu ffrind.

Meddyliwch am ffyrdd gallwn ni sefyll dros Dduw. Siaradwch am fel oedd Daniel a'i ffrindiau wedi gwrthod bwyta'r bwyd roedd Duw wedi dweud wrthynt am beidio bwyta. (Dylai'r ffocws ddim bod y math o fwyd, ond yr ufudd-dod.) Siaradwch am fel oedd Shadrach, Meshach ac Abednego wedi gwrthod ymgrymu i'r ddelw aur. Siaradwch am ffyrdd gallwn ni sefyll dros Dduw. Eisteddwch eich plentyn mewn cadair. Eglurwch eich bod yn mynd i ddarllen rhai gweithrediadau. Os ydynt yn meddwl bod y weithred yn un byddai Duw yn hoffi, dylai fe sefyll. Os yw'n weithred byddai Duw yn casáu, dylai fe aros yn eistedd. Dechreuwch trwy restri gwahanol eitemau fel gweddïo, dwyn, dweud celwydd, helpu pobl eraill a.y.b. Os yw'r plentyn yn ddigon hen, gadewch iddo gael tro yn rhestri eitemau. Darllenwch 1 Corinthiaid 10:31. Siaradwch am fel dylai popeth rydym yn gwneud fod am ogoniant Duw.

Siaradwch am rhai sefyllfaoedd anodd efallai eich bod wedi profi. Eglurwch fod Duw yn medru ein helpu trwy sefyllfaoedd anodd. Efallai byddwn dal i brofi pethau sydd yn anodd, ond bydd Duw yno gyda ni.

Atgoffwch y plentyn bod Shadrach, Meshach ac Abednego mwy na thebyg yn ofnus pan orchmynnodd y brenin nhw i fynd i'r ffwrnais. Dywedwch eu bod wedi gwneud y peth iawn a bod Duw gyda nhw.

Gwnewch ras rhwystrau syml tu mewn neu du allan i'ch tŷ. I'r tu mewn gallwch ddefnyddio pentwr o glustogau, Legos, cadeiriau gyda chortyn a.y.b. Tu allan, pyllau, potiau a.y.b. Dylai rhai o'r rhwystrau fod yn anorchfygol. Pan mae'r plentyn yn sylweddoli nad yw'n medru llwyddo ar ben ei hun, codwch nhw fyny neu helpwch nhw drwy bob rhwystr. Eglurwch fod Duw yn ein helpu drwy bob rhwystr, 'run fath ac yr ydych chi wedi ei helpu. Mae E bob amser gyda ni pan rydym yn cerdded y llwybr mae wedi paratoi ar ein cyfer. Mae gennych hefyd y dewis o greu ras rhwystrau gyda'ch plentyn ar gyfer doli neu degan bach. Siaradwch am fel mae'r plentyn yn helpu'r tegan i orffen y ras.

Gweddïwch gyda'ch plentyn a diolchwch i Dduw am fod gyda ni bob amser. Canmolwch Dduw Ei fod yn medru ein helpu i oresgyn rhwystrau.

© 2025 truewaykids.com



Cafodd Shadrach, Meshach ac Abednego eu taflu i mewn i'r tân. Pan edrychodd y brenin i mewn cafodd surpreis enfawr.

Roedd Rhywun arall gyda nhw oedd yn edrych fel angel.

Amddiffynnodd Duw Shadrach, Meshach ac Abednego rhag y tân. Pan adawon nhw nid oedd eu dillad hyd yn oed yn arogli o fwg.

Y funud honno sylweddolodd Nebuchadnezzar eu bod yn addoli Duw go iawn ac nid rhyw ddelw ffug.




# Y FFWRNAIS DANLLYD



Brenin Nebuchadnezzar oedd yn rheoli gwlad Babylon. Daeth a dynion o wledydd eraill i weithio iddo.

Roedd Daniel, Shadrach, Meshach ac Abednigo i gyd o Israel. Roeddynt yn caru Duw. Er eu bod ymhell o gartref roeddynt yn agos i Dduw ac yn ufudd Iddo. Bendithiodd Duw nhw a rhoddodd swyddi pwysig iddynt yn Babylon.



Un diwrnod penderfynodd Brenin Nebuchadnezzar adeiladu delw enfawr wedi ei wneud o aur. Gwnaeth ddeddf dylai bawb blygu lawr ac addoli'r ddelw neu byddent yn cael eu taflu i'r tân.

Gwyddai Shadrach, Meshach ac Abednego dylent ddim ond addoli Duw.





Dywedodd rhai o weithwyr eraill y brenin oedd yn genfigennus o Shadrach, Meshach ac Abednego wrth y brenin nad oeddent yn addoli ei ddelw.

Pan glywodd Nebuchadnezzar hyn roedd yn grac iawn.

Dywedodd y tri ffrind wrtho gallent ddim ond addoli Duw. Gwnaeth hyn iddo fod yn fwy crac eto a gorchmynnodd iddynt gael eu taflu i mewn i'r tân.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Dyfalwch yr arogl



Pan adawodd Shadrach, Meshach ac Abednego y tân, mae'r Beibl yn dweud nad oedd eu dillad hyd yn oed yn arogli o fwg. I helpu eich plentyn i ddeall hyn gallwch chwarae'r gêm Dyfalu'r Arogl.

Unai mygydwch y plentyn neu rhowch wrthrychau mewn cwpan a'i gorchuddio gyda phapur cegin sydd â thwll bach ynddo. Mae 'r syniad yn syml, rhaid i'r plentyn arogli'r gwrthrych cudd a dyfalu beth ydi o.

Gallwch ddefnyddio matsien wedi ei ddefnyddio, neu ddarn o bapur wedi llosgi fel gwrthrychau am arogl mwg. Pethau eraill byddai'n hawdd arogli yw orenau, past dannedd, siampŵ, fanila a siocled. (Rhybudd: cofiwch ofyn am alergeddau.)



## Gwneud salad ffrwythau

Gwnewch salad ffrwythau gyda'ch plant. Gallwch ei gael fel snac wrth ddarllen y stori.

Gadewch i'ch plant bilio'r ffrwyth (bananas, orennau a.y.b.) yn dibynnu ar eu hoed, gallwch eu helpu nhw gydag afalau a.y.b.

Gofynnwch iddynt pam maent yn meddwl bod ffrwyth yn cael croen. Siaradwch am fel mae'r croen yn amddiffyn y ffrwyth ac fel mae Duw yn ein hamddiffyn ni.

## Cerfluniau cerdd

Gêm glasurol i blant. Rhaid i'r plant ddawnsio o gwmpas, ond pan mae'r miwsig yn stopio, rhaid iddynt rewi a pheidio symud.

I'w wneud yn fwy diddorol, gallwch roi pethau iddynt wneud pan mae'r miwsig yn chwarae, fel esiampl dawnsio, hopian, dynwared cyw iâr ac y.y.b.

Atgoffwch y plant bod y brenin wedi gorchymyn i bawb addoli'r ddelw pan oedd y miwsig yn chwarae, ond bod Shadrach, Meshach ac Abednego wedi gwrthod oherwydd roeddent dim ond yn addoli Duw.



© 2025 truewaykids.com

# Poeth neu oer

Rhowch gylch coch o gwmpas y pethau poeth.

Rhowch gylch glas o gwmpas y pethau oer.



© 2025 truewaykids.com

Shadrach




s s s s s

Meshach



m m m m m


Abednego



A A A A A

© 2025 truewaykids.com

# Lliwiwch y llysiau



© 2025 truewaykids.com

# Ffeindiwch y gwahaniaeth

5 peth i'w ffeindio





© 2025 truewaykids.com

# Crefft Ffwrnais Danllyd



## Pethau byddwch angen:

Templed ar gerdyn gwyn

Pensiliau lliw neu creonau


Siswrn

Glud

Papur sidan coch, melyn ac oren

https://youtu.be/UYs54_gSraU

## Beth i'w wneud:



Lliwiwch dudalennau'r templed. Plygwch ar hyd y canol.





Torrwch allan Shadrach, Meshach ac Abednego a'u gludo yn eu lle.




Gludwch y papur sidan mewn lle i wneud y fflamau. Gadewch iddo sychu.

© 2025 truewaykids.com






© 2025 truewaykids.com




© 2025 truewaykids.com




# Shadrach

© 2025 truewaykids.com



# Meshach

© 2025 truewaykids.com



# Abednego

© 2025 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Shadrach, Meshach and Abednego

https://youtu.be/EaWOmF4sfWI

## Strong and Courageous

https://youtu.be/t34ajxa7TCI

## Stand Strong

https://youtu.be/A6JeiPXIWa4



# Amser Gweddi

Gofynnwch i Dduw eich helpu i wneud beth sy'n iawn a bod yn ufudd Iddo.

Diolchwch i Dduw Ei fod yn medru eich amddiffyn rhag unrhyw beth.

# Wythnos Nesaf:

Daniel a Ffau'r Llewod

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2025 truewaykids.com